

Trosolwg

Tuesday, December 17, 2019 9:11 PM

Teitl yr Aseiniad: Paratowch bortffolio (fel petaech yn ei rannu gyda mentor neu gyd-fyfyrwyr)

sy'n cyfleu adfyfrio beirniadol ar gynnydd a wnaed o ran cynllunio a gweithredu tair egwyddor addysgegol.

Enw'r Myfyriwr: Cari Davies

Rhif Myfyriwr: 1602259

Llwybr: TAR Cynradd

Dolen i'r aseiniad ar OneNote: [https://uowtsd-](https://uowtsd-my.sharepoint.com/:o:/g/personal/1602259_student_uwtsd_ac_uk/EqTI9VpdwJNFg0FLnu3xh9gB9UWBLr2a3IR7IYkxIGptbA?e=6868f9)

[my.sharepoint.com/:o:/g/personal/1602259_student_uwtsd_ac_uk/EqTI9VpdwJNFg0FLnu3xh9](https://uowtsd-my.sharepoint.com/:o:/g/personal/1602259_student_uwtsd_ac_uk/EqTI9VpdwJNFg0FLnu3xh9gB9UWBLr2a3IR7IYkxIGptbA?e=6868f9)

[gB9UWBLr2a3IR7IYkxIGptbA?e=6868f9](https://uowtsd-my.sharepoint.com/:o:/g/personal/1602259_student_uwtsd_ac_uk/EqTI9VpdwJNFg0FLnu3xh9gB9UWBLr2a3IR7IYkxIGptbA?e=6868f9)

Enghraifft Ddarluniadol 1

Wednesday, December 18, 2019 12:00 PM


Tystiolaeth 1a

Amser	Gweithgareddau/Methodoleg/Cysyniadau Allweddol (Rôl yr Athro – gan gynnwys pwysntau dysgu allweddol a chwestiynau allweddol)	Tasgau Disgyblion (Rôl disgyblion – gan gynnwys strategaethau gwahaniaethu, ymgysylltu ag asesu ffurfiannol a gwaith cartref)	Adnoddau (Gan gynnwys gofyniad lechyd a Diogelwch)
Cyfnod agoriadol (gyda chysylltiadau â dysgu blaenorol)	Question pupils on their previous knowledge of WW1 and Flanders Fields from yesterday's lesson – why do we wear the poppy/where is Flanders Fields/what happened there etc.	Answer the questions verbally.	
Addysgu a Dysgu Craidd	Give out the challenge cards. Explain to the pupils that they are going to complete research on Flanders Fields and WW1. Have a verbal discussion with the pupils about the importance of using trustworthy and reliable websites – question them for examples.	Listen to the set task. Give verbal examples of reliable and unreliable websites that can be used.	14 x challenge cards
	Show success criteria on interactive whiteboard and read through it with the pupils (information sheet which includes title, facts etc).		Success criteria
	Ask pupils to begin the task on the Google Chromebooks. Walk around the classroom ensuring that the environment is managed and that the pupils are on task.	Begin the task and raise their hand if they need help.	27 x Google Chromebooks
	Extension task - ask the pupils to think of what items they would take if they were going to fight in the war. They can only choose 5 items but they must explain why they've chosen those items.	Complete the extension task if they have finished the information sheet.	
Sesiwn Gloi	Ask pupils to print off their information worksheet, glue in their books and ask pupils to peer-assess each other's work.	Print off their work, glue in literacy book and peer-assess another's work.	Literacy books Glue

Tystiolaeth 1b

Gwerthuso'r hyn y mae Disgyblion yn ei Ddysgu	
Tystiolaeth o Ddysgu (gan gynnwys agwedd at ddysgu dros amser))	At the beginning of the lesson, I used questioning to assess the pupils' previous knowledge of World War One and Flanders Fields. All of the pupils were keen to answer the questions which demonstrated their previous knowledge of the World War. Following this, all pupils successfully created a factual information worksheet about World War One and Flanders Fields using reliable sources, which again demonstrated their understanding of the task and their knowledge of the theme. They also used appropriate websites to source their information following a class discussion about using trustworthy sources.

Tystiolaeth 1c



Dysgais wers lythrennedd Saesneg i ddisgyblion Blwyddyn 5 a 6. Disgyblion cyrhaeddiad uwch oedd y rhain. Ffocws y wers oedd ehangu dealltwriaeth y disgyblion o ddigwyddiadau'r Rhyfel Byd Cyntaf a cherdd rhyfel trwy ofyn iddynt gwblhau prosiect ymchwil ar liniaduron.

Yn ystod y wers, penderfynais ddefnyddio amrywiaeth o dechnegau Asesu ar gyfer Dysgu (AagD) i asesu dealltwriaeth y disgyblion o'r dasg (gweler Tystiolaeth 1a). Cynlluniais ddefnyddio'r strategaeth cwestiynu dwylo i fyny ar ddechrau'r wers, cyn yna rhannu'r meini prawf llwyddiant (mpll) gyda'r disgyblion. I gloi, gofynnais i'r disgyblion i asesu gwaith eu cyfoedion (Black a Wiliam, 1998).

Penderfynais ddefnyddio'r technegau yma yn fy ngwers gan bwysleisiodd Black a Wiliam (1998) pwysigrwydd defnyddio'r elfennau yma o AagD yn gyson er mwyn cefnogi datblygiad y dysgwyr. Yn benodol, defnyddiais strategaeth cwestiynu oherwydd yn ystod fy nghyfnod o arsylwi, nodais fod y defnydd o gwestiynu yn ymddangos yn effeithiol ar gyfer asesu dealltwriaeth flaenorol y disgyblion. Mae ymchwil Wareing (2012) yn atgyfnerthu hyn, gan ei fod yn dadlau bod y defnydd o gwestiynu yn darparu tystiolaeth gadarn o ddealltwriaeth y dysgwyr. Ymddangosodd y strategaeth i fod yn gweithio'n dda yn ystod y wers wrth i'r disgyblion ateb yn hyderus. Adlewyrcha hyn eu dealltwriaeth flaenorol o'r testun. Adfyfyrtais ar y llwyddiant yma yn fy adfyfyrddio dyddiol.

Yn ail, cynlluniais rannu'r mlll gyda'r disgyblion cyn iddyn nhw ddechrau ar y prosiect ymchwil. Penderfynais ddefnyddio'r elfen yma o AagD yn fy ngwers gan ei bod yn cynorthwyo'r disgyblion i lwyddo, gan roi targedau penodol iddyn nhw i gyflawni. Gwnaeth ymchwil DeLuca, et al. (2018) darganfod canlyniadau tebyg, wrth i'r cyfranogwyr nodi bod derbyn mlll o'r athrawes yn elfen werthfawr o AagD, gan ei fod yn atgoffa'r disgyblion o'r hyn sydd angen iddynt gyflawni er mwyn llwyddo. Er i mi gynllunio i gyflwyno'r mlll cyn i'r disgyblion dechrau ar y dasg, anghofiais wneud hyn ac felly, roedd yn rhaid i mi gyflwyno'r mlll yng nghanol y dasg. Nododd y mentor dosbarth byddai wedi bod yn fwy buddiol i mi i gyflwyno'r mlll ar ddechrau'r dasg fel bod y disgyblion yn ymyrbodol o'r disgwyliadau (gweler Tystiolaeth 1c). Rwy'n cydnabod fy nghamgymeriad wrth ystyried canfyddiadau DeLuca, et al. (2018) a Black a Wiliam (1998) ac felly yn y dyfodol, byddaf yn ceisio sicrhau fy mod i'n cofio cyflwyno'r mlll ar ddechrau'r dasg fel ei fod o gymorth i'r disgyblion.

Penderfynais gloi'r wers gan ofyn i'r disgyblion i asesu gwaith eu cyfoedion. Mae hunanasesu ac asesu cymheiriad yn elfen arall o AagD sy'n cael ei hargymell gan Black a Wiliam (1998). Dangosa canfyddiadau ymchwil Panadero a Brown (2017) bod nifer o athrawon yn adnabod nifer o fanteision i asesu cymheiriad, megis ei fod yn rhoi mwy o gyfrifoldeb i'r disgyblion a'i fod yn hyrwyddo dysgu pellach. O ganlyniad, byddaf yn cadw i ddefnyddio'r dechneg yn fy ngwersi.

Er i mi gynnwys elfennau o gwestiynu, rhannu mlll ac asesu cyfoedion yn fy ngwers, ni lwyddais i gyflwyno amser penodol ar gyfer adborth athrawes. Er i mi ddarparu adborth i rai o'r disgyblion wrth grwydro o amgylch y dosbarth, nid oedd angen adborth uniongyrchol ar bob disgybl, ac felly ni wnaeth pob disgybl derbyn adborth. Gan fod Black a Wiliam (1998) yn argymhell darparu adborth o ansawdd er mwyn helpu'r disgyblion i ffynnu, byddaf yn ceisio pennu amser penodol ar gyfer darparu adborth yn fy ngwersi yn y dyfodol.


Enghraifft Ddarluniadol 2

Wednesday, December 18, 2019 12:03 PM

Tystiolaeth 2a

Cynnod agoriad (gyda chysylltiadau i ddisgyltadau blaenorol)	Dosbarthu esiampl o bortread a gofyn i'r disgyblion i ddarllen trwy'r esiampl a chanfod <u>meini</u> prawf llwyddiant ar gyfer ysgrifennu portread effeithiol o'r esiampl. Rhof 6 munud ar yr amseredd. Rhannu eu canfyddiadau gyda mi a gweddi y dosbarth.	Darllen trwy'r esiampl a meddwl, paru, rhannu.	Amseredd 16 x portread enghreifftiol.
	Nodi syniadau'r disgyblion ar y bwrdd gwyn.		


Tystiolaeth 2b



Tystiolaeth 2c

Gofyn i ddisgyblion i ludo'r meini prawf a dechrau ar y dasg o ysgrifennu portread ar ôl iddyn nhw orffen cynllunio.	Gludo'r meini prawf llwyddiant yn eu llyfrau a dechrau ar y dasg.	
Crwydro o amgylch i roi cymorth ac adborth.	Codi llaw os oes ganddynt gwestiwn.	
Tasg Estynedig - Ymchwilio i ragor o	Cwblhau'r dasg estynedig os ydynt wedi	Llyfrau Chrome

Tystiolaeth 2ch



Enghraifft Ddarluniadol 3

Wednesday, December 18, 2019 12:03 PM

Tystiolaeth 3a

- Sylwadau a thystiolaeth
- Targedau ar gyfer Gwelliant ac awgrymiadau er mwyn symud ymlaen

Deall a chyfleu ystod o ddibenion ac arferion ar gyfer asesu. Mae [redacted] wedi mabwysiadu polisi asesu'r ysgol yn effeithiol tu hwnt. Defnyddir Meini Prawf Llwyddiant yn gywir ac i bwrpas, ac mae'r targedau a rhoddir yn cysylltu â'r rhain. Mae'r darpar athro'n cynhyrchu cofnodion ac adroddiadau priodol, amserol a chywir ac mae'n rhoi adborth i helpu i sicrhau gwell dealltwriaeth o'r dysgu, a gwellaf profiad dysgu. Mae bob amser yn gwerthuso'i gwers yn fanwl ac yn onest. Mae'n gallu adnabod ei chryfderau yn ogystal â'i gwendidau ac yna trafod y rhain yn synhwyrol. Targed: Rheoli'r amgylchedd ddysgu yn effeithiol bob amser. Hynny yw sicrhau bod pawb yn gwrandao ac yn canolbwyntio yn ystod pob cyfwyniad gwers.

Tystiolaeth 3b

- Strategies for Assessment for Learning used within [redacted] are:
- lesson and learning objectives clearly explained at the beginning of the lesson.
 - sharing the specific success criteria with pupils which relates to the skills, concepts and knowledge of the activity.
 - giving feedback through group and plenary sessions, this may be in the form of talking to pupils and teaching them to be reflective about the learning objectives and about their work and responses.
 - self-marking where pupils are encouraged to see for themselves what they need to do to improve and discuss it with their teacher.
 - peer-assessment.
 - marking or oral feedback explaining what the next steps should be, pupils achieve by building on previous performance. Feedback is most effective when it confirms that pupils are on the right track and when it stimulates correction or improvement of a piece of work.
 - self-assessment and evaluation.
 - effective questioning techniques including:
 - ✓ improving quality of answers
 - ✓ increasing thinking/waiting time
 - ✓ big questions
 - peer discussion including:
 - ✓ think, pair, share

Tystiolaeth 3c

- ✓ group responses
- active involvement of all pupils:
 - ✓ whiteboards
 - ✓ no-hands up
- target setting, where teacher and pupils set targets relating to specific goals:
 - ✓ how to improve
 - ✓ closing the gap comments
 - ✓ two stars and a wish
- ongoing assessment in lessons:
 - ✓ traffic lighting
 - ✓ thumbs-up, thumbs down.
 - ✓ talk partners
 - ✓ post-it challenge
 - ✓ KWL grids
- using summative assessments formatively:
 - ✓ reviewing tests
 - ✓ test question analysis

Tystiolaeth 3ch

	allweddol a chwestiynau allweddol)	gwaith cartref)	
Cyfnod agoriadol (gyda chysylltiadau â dysgu blaenorol)	Gofyn i'r disgyblion ar fyrdau gwyn bach tynnwch lun i mi o "ongl lem" "... ongl aflem" ayyb.	Ateb ar fyrdau gwyn bach.	Byrddau gwyn bach
	Modelu sut i fesur onglau ar y bwrdd gwyn - cwestiynu'r disgyblion am beth	Ceisio rhoi cyfarwyddyd i mi ar lafar am sut i fesur onglau.	

Tystiolaeth 3d

Addysgu a Dysgu Craidd	Esbonio ein bod ni'n mynd i ddysgu sut i lunio onglau heddiw. Gofyn i'r disgyblion beth maen nhw'n meddwl yw'r cam cyntaf, ail ayyb.	Ceisio dyfalu beth yw'r cam cyntaf, ail ayyb ar lafar.	
	Modelu gan esbonio'r camau: 1) Tynnu llinell syth gyda phren mesur 2) Lunio smotyn ar un ochr o'r llinell 3) Rhoi canol yr onglydd ar y smotyn	Gwrando gan godi llaw os oes angen cymorth arnynt.	


Yn dilyn fy nghyfnod o addysgu yn PAP 1 – Bloc 1, gwnaeth fy mentor dosbarth canmol fy nefnydd o asesu yn fy adroddiad canol lleoliad, gan nodi bod fy nghydymffuriad â gofynion polisi asesu'r ysgol wedi bod yn effeithiol ac o fudd (Gweler Tystiolaeth 3a). Arddangosa Tystiolaeth 3b a 3c rhai o ofynion polisi asesu'r ysgol lleoliad. Ar ôl derbyn y sylwadau yma, penderfynais adfyfrio ar fy ngwers Mathemateg gyda Blwyddyn 6, lle roeddwn i'n addysgu sut i lunio onglau'n gywir. Gwers ar gyfer 32 o ddisgyblion â gallu cymysg oedd y wers.

Penderfynais adfyfrio ar y wers yma gan geisiais gyflwyno nifer o elfennau Asesu ar gyfer Dysgu (AagD) trwy gydol y wers. Fel soniwyd Black a Wiliam (1998), mae'r defnydd o AagD yn hanfodol o bwysig i athrawon gan fod asesu ffurfiannol yn galluogi'r athrawes i asesu dealltwriaeth y disgyblion o destun penodol yn gyson, gan felly caniatáu iddi addasu'r her fel ei bod ar lefel priodol i'r disgyblion mae hi'n ei haddysgu.

Wrth ystyried hyn, penderfynais ddechrau'r wers gan ddefnyddio strategaeth cwestiynu lle'r oedd y disgyblion yn ateb y cwestiynau ar eu byrddau gwyn bach personol (gweler Tystiolaeth 3ch). Dewisais ddefnyddio'r strategaeth yma gan fod ymchwil yn argymhell y defnydd o gwestiynu, nid ond oherwydd ei bod yn arddangos dealltwriaeth y disgyblion o destun, ond hefyd oherwydd ei bod yn gofyn i'r disgyblion i feddwl yn ddwys cyn ateb, sydd eto yn cynyddu eu cyfrifoldeb dros ddysgu eu hun (Black, et al., 2003). Yn ychwanegol, darganfuwyd Andersson a Palm (2017) bod y defnydd o fyrdau gwyn bach yn ddefnyddiol, gan fod yr athrawes yn cael ateb o bob disgybl yn syth, sy'n caniatáu iddi asesu dealltwriaeth pob unigolyn wrth arsylwi eu hymatebion, gan yna gwneud unrhyw addasiadau i'r wers fel bo'n briodol. Gwnaeth y mentor dosbarth canmol fy strategaethau cwestiynu yn fy Noddlyfr Dysgu (gweler Tystiolaeth 3dd), gan nodi fy mod i'n hasesu dealltwriaeth flaenorol y disgyblion ac yn ei herio nhw gyda chwestiynau anodd.

Yna, wnes i rannu'r meini prawf llwyddiant (mpll) gyda'r disgyblion gan esbonio mai ffocws y wers oedd llunio onglau'n gywir (gweler Tystiolaeth 3d). Penderfynais wneud hyn gan fod ymchwil yn pwysleisio bod rhannu mply gyda'r disgyblion yn fanteisiol, gan ei fod yn arddangos disgwyliadau'r athrawes yn glir, sy'n cymorth i'r disgyblion wrth iddyn nhw gyflawni'r dasg (Black, et al., 2003). Yn ychwanegol, mae polisi asesu'r

Tystiolaeth 3dd



ysgol (gweler Tystiolaeth 3b) yn argymhell dylid rhannu'r mpII gyda'r disgyblion fel arfer dda. O ganlyniad, ceisiais rannu'r mpII gyda'r disgyblion ar ddechrau pob gwers.

Er i mi lwyddo wrth ddefnyddio strategaeth cwestiynu a rhannu'r mpII gyda'r disgyblion, ni chredaf fy mod i wedi cynllunio digon o amser penodol ar gyfer hunanasesu ac asesu cyfoedion. Mae hunanasesu ac asesu cyfoedion yn cael eu cynnwys yn bolisi asesu'r ysgol (gweler Tystiolaeth 3b), ac felly mae'n hanfodol fy mod i'n cynyddu fy nefnydd o'r elfen yma o AagD. Fel soniwyd yn flaenorol, mae ymchwil yn dangos bod hunanasesu o gymorth i ddatblygiad a chynnydd y disgyblion (Wiliam, 2018). Wrth ystyried hyn, rhaid i mi gynyddu'r amser sydd ar gael i'r disgyblion i hunanasesu eu gwaith yn y dyfodol.

Enghraifft Ddarluniadol 1

Wednesday, December 18, 2019 12:01 PM

Tystiolaeth 1a

Rhifedd

- Bydd disgyblion yn ceisio ateb cwestiynau rhifedd sy'n ymwneud â bywyd a gwaith Joseph Evans.

Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd

- "trosglwyddo sgiliau mathemategol i amrywiaeth o gyd-destunau a sefyllfaoedd bob dydd"
- "adnabod y camau a'r wybodaeth briodol sydd eu hangen er mwyn cwblhau'r dasg neu gyrraedd datrysiad"
- "dewis mathemateg a thechneg briodol i'w defnyddio"
- "dewis a defnyddio offer ac unedau mesur addas"
- "dewis strategaeth feddwl neu ysgrifenedig briodol a gwybod pryd mae'n briodol defnyddio cyfrifiannell"
- "mireinio dulliau anffurfiol o gofnodi cyfrifiadau ysgrifenedig, gan symud i ddulliau cyfrifo ffurfiol pan fyddant wedi datblygu digon i wneud hynny"
- "defnyddio nodiant, symbolau ac unedau mesur priodol"
- "dewis o blith ystod gynyddol o strategaethau gwirio er mwyn penderfynu a yw atebion yn rhesymol"
- "dehongli atebion yng nghyd-destun y problem ac ystyried a yw'r atebion yn synhwyrol, gan gynnwys dangosyddion cyfrifiannell, analog a digidol"
- "darllen ac ysgrifennu rhifau hyd at 1 miliwn a rhifau i 3 lle degol"
- "defnyddio strategaethau meddwl i alw tablau lluos i gof hyd at 10×10 a'u defnyddio i ddatrys problemau rhannu lluos rhifau a degolion â lluosrifau 10"
- "drwy ddefnyddio rhifau cyfan a degolion"
- "lluos rhifau 2 a 3 digid â rhif 2 ddigid"
- "lluos rhifau 2 a 3 digid â rhif 2 ddigid"
- "amcangyfrif hyd taith o ran amser"

Yn fy ngwers Cymraeg â 32 o ddisgyblion Blwyddyn 6, cyflwynais agweddau o rhifedd yn fy nhasg darllen a deall (gweler Tystiolaeth 1a). Gan wnes i gyflwyno'r elfen rhifedd yn y dasg, penderfynais wahaniaethu'r cwestiynau darllen a deall yn ôl grwpiau Mathemateg y disgyblion, sef Grŵp A a Grŵp B (gweler Tystiolaeth 1b). I ddechrau, roedd y disgyblion wedi'u drysu wrth i mi ddsbarthu gwaith Cymraeg yn ôl eu grwpiau mathemateg, ond ar ôl iddynt ddechrau ar y dasg daeth hi'n amlwg bod y gwahaniaethu wedi sicrhau bod y lefel o her yn briodol ar gyfer yr amryw o alluoedd o fewn y dosbarth (gweler Tystiolaeth 1c).

Penderfynais gyflwyno rhifedd yn y Meysydd Dysgu a Phrofiad gwahanol ar ôl darllen adroddiad Donaldson (2015). Un o flaenoriaethau Donaldson (2015) yn y cwricwlwm newydd yw sicrhau bod athrawon yn cyflwyno'r cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd, sef llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol, mor aml ag sy'n bosib yn eu gwersi. Trwy gyflwyno'r elfen rhifedd yn fy ngwers Cymraeg, llwyddais ddarparu cyd-destun dilys i'r sgiliau mathemategol roedd y disgyblion wedi bod yn ymarfer yn eu gwersi Mathemateg pur. Yn ôl Donaldson (2015), dyma bwrpas cyflwyno'r cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd, gan fod ail-adrodd y sgiliau sy'n cael eu datblygu yn wersi Mathemateg pur yn caniatáu i'r disgyblion adnabod sefyllfaoedd arall lle bydd angen cymhwyso'r sgiliau yma er mwyn datrys problem. Yn obeithiol, mi fydd hyn yn hyrwyddo annibyniaeth y disgyblion gan fod "cymhwysedd mewn rhifedd yn hanfodol ar gyfer byw a gweithio'n annibynnol" (Donaldson, 2015, tud.40).

Er teimlaf fy mod i wedi cyflwyno'r elfen rhifedd yn llwyddiannus yn drawsgwricwlaidd yn y wers yma, ni chredaf fy mod i wedi llwyddo i gyflwyno'r elfen yn ddigonol yn fy ngwersi arall. O ganlyniad, byddaf yn ceisio cyflwyno'r elfen rhifedd yn drawsgwricwlaidd yn fwy aml yn fy ngwersi yn PAP 1 – Bloc 2, er mwyn i'r disgyblion buddio o'r ymarfer.


Tystiolaeth 1b

Esbonio bod y disgyblion nawr yn mynd i gwblhau tasg darllen a deall am fywyd Joseph. Gofyn i'r disgyblion i ysgrifennu'r dyddiad a nod y wers yn eu llyfrau. Nid oes angen i'r disgyblion i ysgrifennu'r cwestiynau allan ond ateb mewn brawddegau llawn. Dosbarthu taffenni darllen a deall Grŵp A a Grŵp B.

Ysgrifennu'r dyddiad a'r nod yn eu llyfrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu. Dechrau ar y dasg gan ateb mewn brawddegau llawn.

32 x taffenni darllen a deall Joseph Evans (Grŵp A a Grŵp B).

Tystiolaeth 1c



Enghraifft Ddarluniadol 2

Wednesday, December 18, 2019 12:04 PM


Tystiolaeth 2a

Meini Prawf Llwyddiant (wedi eu cysylltu'n glir â phob Amcan Dysgu ac yn gysylltiedig â phroses a/neu gynnyrch dysgu)	Asesu Dysgu'r Disgyblion Tystiolaeth (Beth sydd gan y dysgwyr i'w ddweud/ysgrifennu/gwneud/cynhyrchu i ddangos yr hyn a ddysgir)
Bydd disgyblion yn gallu esbonio gwraidd y seremoni Cymundeb a'i chysylltu gyda'r hyn a ddigwyddodd yn y Swper Olaf.	Bydd disgyblion yn ateb cwestiynau agored a chaeedig ar wraidd y seremoni Cymundeb er mwyn i mi asesu eu dealltwriaeth o'r thema.
Bydd disgyblion yn gallu esbonio beth sy'n digwydd yn ystod seremoni Cymundeb arferol gan ysgrifennu cyfarwyddiadau ar gyfer ficer newydd sy'n defnyddio:	Bydd y'n asesu dealltwriaeth y disgyblion trwy grwydro o amgylch y dosbarth wrth iddyn nhw ysgrifennu'r cyfarwyddiadau. Bydd y dasg yn arddangos eu dealltwriaeth o'r hyn sy'n digwydd. Bydd y hefyd yn rhoi adborth fel bo angen.
- Cysylltiadau amserol - Gwybodaeth feithiol gywir - Berfau gorchmynnol	

Tystiolaeth 2b

Meini Prawf Llwyddiant (wedi eu cysylltu'n glir â phob Amcan Dysgu ac yn gysylltiedig â phroses a/neu gynnyrch dysgu)	Asesu Dysgu'r Disgyblion Tystiolaeth (Beth sydd gan y dysgwyr i'w ddweud/ysgrifennu/gwneud/cynhyrchu i ddangos yr hyn a ddysgir)
Write a detailed set of instructions that include:	Sharing the success criteria with the pupils. Pupils will write their own set of instructions before self-assessing their work and asking a peer to assess their work. Following this, the teacher will assess the work and leave 2 stars and a wish which will indicate what aspects were done well and what could be improved next time.
- The use of a variety of adverbs - The use of a variety of imperative verbs - The effective use of time connectives - Appropriate subheadings - Additional information to give context.	

Tystiolaeth 2c



Ceisiais gyflwyno'r elfen llythrennedd yn drawsgwricwlaidd yn fy ngwers Addysg Grefyddol (gweler Tystiolaeth 2a). Ffocws y wers oedd dysgu am seremoni Cymundeb y Cristnogion. Gwers ar gyfer 32 o ddisgyblion gallu cymysg yn Fflwyddyn 6 oedd hi. Yn dilyn ymlaen o wers Saesneg flaenorol, lle ofynnais i'r disgyblion i ysgrifennu cyfarwyddiadau ar gyfer rysâit (gweler Tystiolaeth 2b), penderfynais ofyn i'r disgyblion i ysgrifennu cyfarwyddiadau o sut i gynnal Cymundeb (gweler Tystiolaeth 2c).

Penderfynais ar y dasg yma gan roeddw i am gyflwyno llythrennedd yn drawsgwricwlaidd, ac ar ôl i'r disgyblion ymarfer ysgrifennu cyfarwyddiadau yn eu gwersi iaith pur, roeddw i am ddangos iddynt sut roedd gwahanol agweddau o iaith yn gallu cael eu cymhwyso a'u defnyddio mewn amrywiaeth o gyd-destunau a phynciau eraill. Mae'r rhesymeg yma yn cyd-fynd ag argymhellion Donaldson (2015, tud.40), gan ei fod yn dadlau bod angen "cyd-destunau cyfoethog" ar ddisgyblion er mwyn iddyn nhw allu "cryfhau" a mireinio eu sgiliau iaith mewn sefyllfaoedd go iawn. Gwnaeth ymchwil gan Kerry (2011, tud.14) hefyd canfod canlyniadau tebyg; "learning was deeper and more effective in lessons where subject content was cross-curricular". O ganlyniad, ceisiais gyflwyno agweddau o lythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol yn fy ngwersi yn rheolaidd.

Yn dilyn fy nghyfnod o addysgu yn PAP 1 – Bloc 1, gwnaeth fy mentor dosbarth canmol fy nghynllunio trawsgwricwlaidd yn fy adroddiad canol lleoliad (gweler Tystiolaeth 2ch). Nododd fy mod i'n ceisio ail-adrodd y sgiliau a datblygwyd yng ngwersi iaith a mathemateg pur mewn cyd-destunau a meysydd gwahanol, wrth i mi geisio rhoi siawns i'r disgyblion i ddatblygu a mireinio eu sgiliau ieithyddol a rhifedd. Er hyn, llwyddais gyflwyno llythrennedd yn drawsgwricwlaidd yn llawer mwy aml na'r elfennau rhifedd a chymhwysedd digidol, felly rhaid i mi geisio datblygu'r elfennau yma yn fwy yn fy ngwersi yn y dyfodol, gan fod pob un ohonynt yr un mor bwysig yn ôl Donaldson (2015).

Tystiolaeth 2ch

- Sylwadau a thystiolaeth
- Targedau ar gyfer Gwelliant ac awgrymiadau er mwyn symud ymlaen

Mae'r darpar athro'n arddangos gwybodaeth am addysgeg a disgyblaethau perthnasol o fewn, ac ar draws, cynnwys pynciau, meysydd dysgu, a themâu trawsgwricwlaidd; mae hefyd yn arddangos dealltwriaeth o hyn ac yn cynllunio'n briodol yn ôl hynny. Hyd yn oed os nad yw'n siwr - mae'n barod iawn i ymchwilio a gofyn am gymorth i sicrhau ei bod yn paratoi'n drwyadl. Mae'r darpar athro'n arddangos dealltwriaeth o sut mae dysgu'n datblygu fesul tipyn, gam wrth gam ac wrth fynd heibio gan adeiladu ar brofiadau blaenorol a'r hyn a ddysgwyd o'r blaen. Mae yna'n cynllunio ar gyfer cynnydd yn seiliedig ar hyn. Mae hefyd wedi cynllunio yn drawsgwricwlaidd, yn cyflwyno sgil mewn un maes ac yna yn ei atgyfnerthu mewn maes arall. Targed: Ehangu ymhellach ar ei dulliau addysgol.

Enghraifft Ddarluniadol 3

Wednesday, December 18, 2019 12:04 PM

Tystiolaeth 3a

person ar rwrdd gwyn y dosbarth.		
Addysgu a Dysgu Craidd	Dangos polisi gwrth fwlio'r ysgol i'r disgyblion. Esbonio bod hanner y dosbarth yn mynd i greu poster sy'n arddangos cynnwys y polisi yn weledol ar gyfer gweddill disgyblion yr ysgol, ac mae'r hanner arall yn mynd i greu fideo fel grŵp gan ddefnyddio sgrïpt/nodiadau a'i recordio ar iPad yr ysgol.	Gwrandao ar y dasg a chodi llaw os oes ganddynt gwestiwn.
		Copi o bolisi'r ysgol

Tystiolaeth 3b

Meini Prawf Llwyddiant (wedi eu cysylltu'n glir â phob Amcan Dysgu ac yn gysylltiedig â phroses a/neu gynnyrch dysgu)	Asesu Dysgu'r Disgyblion Tystiolaeth (Beth sydd gan y dysgwyr i'w ddweud/ysgrifennu/gwneud/cynhyrchu i ddangos yr hyn a ddysgir)
Byddwch chi'n pennu'r meini prawf llwyddiant ar gyfer ysgrifennu sgrïpt wrth astudio enghraifft.	Bydda i'n caniatáu i'r disgyblion i ddarllen trwy sgrïpt enghreifftiol a chael trafodaeth "meddwl, paru, rhannu" mewn paruau er mwyn iddyn nhw dynnu'r meini prawf o'r darn.
Yr elfennau pwysig o ysgrifennu sgrïpt yw: - Gosod yr olygfa - Rhoi enwau'r cymeriad ar y chwith gyda choln i ddilyn - Cyfarwyddiadau llwyfan - Cyfarwyddiadau lleferydd - Defnyddio iaith addas.	Yn obeithiol, bydd y disgyblion yn adnabod yr elfennau yma o'r sgrïpt enghreifftiol ac yn eu rhannu gyda'r dosbarth.

Erbyn diwedd fy nghyfnod o addysgu yn PAP 1, roeddwn i ychydig yn fwy hyderus wrth gyflwyno'r cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd yn fy ngwersi.

Yn un o fy ngwersi diwethaf gyda 32 o ddisgyblion Blwyddyn 6, llwyddais gyflwyno'r elfennau llythrennedd a chymhwysedd digidol yn fy ngwers Addysg Personol a Chymdeithasol (ABCh). Thema'r wers oedd gwrth fwlio a thasgau'r disgyblion oedd naill ai greu sgrïpt a fideo gwrth fwlio fel grŵp neu boster gwrth fwlio (gweler Tystiolaeth 3a).

Roedd y tasgau i gyd yn cael eu cwblhau ar liniaduron neu iPads, ac felly roedd y disgyblion oll yn datblygu eu sgiliau cymhwysedd digidol. Dewisais gyflwyno cymhwysedd digidol i'r wers gan fod technoleg yn datblygu'n gyflym ac "mae'r gallu i ddefnyddio sgiliau technoleg ddigidol mewn ffordd greadigol yn agwedd fwyfwy cyffredin yn y gweithle modern" (Donaldson, 2015, tud.41). Cytuna Barnes (2018) a'r datganiad yma, ac yn ei lyfr mae'n ceisio annog athrawon i ddefnyddio amrywiaeth o dechnoleg i hybu creadigrwydd a sgiliau meddwl y disgyblion. O ganlyniad, mae'n hollbwysig bod y disgyblion yn cael amryw o gyfleoedd i arbrofi gyda thechnoleg er mwyn datblygu eu sgiliau personol. Yn ychwanegol, llwyddais gyflwyno agweddau o lythrennedd yn y ddwy dasg; roedd y disgyblion a oedd yn creu'r poster yn gorfod cyflwyno gwybodaeth ysgrifenedig ar eu posteri, ac roedd y disgyblion a oedd yn creu fideo yn trafod â'i gilydd ac yn gorfod ysgrifennu sgrïpt fel rhan o'r dasg. Roeddwn i wedi addysgu'r disgyblion ar sut i ysgrifennu sgrïpt yn wers iaith yr wythnos flaenorol (gweler Tystiolaeth 3b), ac felly roedd gofyn i'r disgyblion i ysgrifennu sgrïpt ar gyfer eu fideo yn atgyferthu eu sgiliau ieithyddol ym Maes Dysgu a Phrofiad arall. Penderfynais wneud hyn gan fod Donaldson (2015) yn pwysleisio'r pwysigrwydd o ddarparu amrywiaeth o gyd-destunau i ddisgyblion er mwyn rhoi'r siawns iddyn nhw i ddatblygu eu sgiliau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol mewn amryw o ffyrdd.

Er teimlaf yn falch fy mod i wedi llwyddo i gyflwyno'r cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd yn fy ngwers, yn ystod y wers fe ddaeth hi'n amlwg nid oeddwn i wedi herio'r disgyblion yn ddigonol gyda'r elfen cymhwysedd digidol. Trwy gydol y wers, gwnaeth y disgyblion dod ataf er mwyn gofyn a oedd hawl ganddyn nhw i ddefnyddio 'green screens' a'r ap 'iMovie' er mwyn cynhyrchu eu fideos. Oherwydd fy nffyg hyder gyda thechnoleg gwybodaeth, nid oedd gen i'r sgiliau i gynorthwyo'r disgyblion pe bydden nhw wedi defnyddio'r technolegau yma, ac o ganlyniad, ni wnaeth y disgyblion defnyddio'r rhain. Nid oeddwn i'n hapus gyda'r canlyniad yma, gan deimlaf fy mod i wedi rhwystro creadigrwydd a datblygiad y disgyblion ac fe wnes i adfyfrio ar yr hyn a ddigwyddodd yn fy adfyfrio dyddiol (gweler Tystiolaeth 3c). Yn ychwanegol, nododd y mentor dosbarth yn ystod ein hadfyfrio bod angen i mi gyflwyno rhagor o dechnoleg gwybodaeth yn fy ngwersi (gweler Tystiolaeth 3ch). Er hyn, mae ymchwil yn dangos bod nifer o athrawon yn pryderu am ddefnyddio technoleg gwybodaeth yn y dosbarth oherwydd diffyg hyder a dealltwriaeth personol, sydd weithiau yn arwain at yr athrawon yn osgoi eu defnyddio (Muñoz, et al., 2017). Dadleua rhai bod angen mwy o hyfforddiant ar athrawon er mwyn oresgyn hyn (Fernández-Cruz & Fernández-Díaz, 2016). O ganlyniad, rwy'n cydnabod bod angen i mi ddatblygu fy sgiliau technoleg gwybodaeth personol er mwyn gallu herio'r disgyblion i ddatblygu eu sgiliau cymhwysedd digidol. Felly, un o fy mlaenoriaethau ar gyfer PAP 1 – Bloc 2 yw datblygu fy sgiliau a hyder wrth ddefnyddio technolegau gwahanol.

Tystiolaeth 3c

Meysydd ar gyfer fy Natblygiad	Er mwyn datblygu fy addysgeg, efallai byddai wedi bod yn ddefnyddiol i mi herio'r disgyblion i ddatblygu eu sgiliau cymhwysedd digidol yn fwy o'r ddechrau. Gan wnaeth y disgyblion argymhell ffyrdd gwahanol o herio'u hun, mae'n amlwg bod y dasg gwreiddiol yn rhy hawdd i'r disgyblion. Felly, mae angen i mi addasu'r her a sicrhau ei bod yn addas i'r disgyblion. Mae hwn yn gysylltiedig â'r adran 'herio a disgwyliadau' o'r Safonau SAC.
Targedau Personol ar gyfer Cynnydd	

Tystiolaeth 3ch

Meysydd ar gyfer fy Natblygiad	Er mwyn datblygu fy addysgeg, bydda i'n ceisio creu cysylltiadau mwy ystyrlon gyda'r cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd, a'r elfen cymhwysedd digidol yn benodol. Ar ôl trafodaethau gyda fy mentor dosbarth, cytunwyd bod angen i mi geisio cyflwyno rhagor o gymhwysedd digidol yn fy ngwersi. Jan fod Donaldson yn pwysleisio pwysigrwydd cyflwyno'r cyfrifoldebau i wersi, mae'n hanfodol fy mod i'n ceisio cyflwyno'r elfen cymhwysedd digidol i fy ngwersi iaith er budd y disgyblion. Mae'r ymarfer yma yn cysylltu â'r adran 'themâu trawsgwricwlaidd' o'r Safonau SAC. Felly, yn fy ngwersi nesaf byddaf yn ceisio cyflwyno mwy o gymhwysedd digidol, fel argymhellodd Donaldson, er mwyn datblygu fy addysgeg personol.
Targedau Personol ar gyfer Cynnydd	

Enghraifft Ddarluniadol 1

Wednesday, December 18, 2019 12:02 PM

Tystiolaeth 1a

Assist the teacher in following the instructions to create [REDACTED]. This will include weighing/measuring ingredients, checking the availability of the required equipment and completing the correct sequence of actions as described in the instructions to create [REDACTED].	Pupils will demonstrate that they are able to follow the instructions through: • Correctly weighing/measuring the ingredients • Checking that all of the equipment is readily available • Assisting the teacher either through completing the action themselves whilst following the 5 elements within the instructions or by telling the teacher how to complete the required action with the use of the 5 elements within the instructions.
---	--

Tystiolaeth 1b



Yn un o fy ngwersi Saesneg gyda 27 o ddisgyblion Blwyddyn 5 a 6, penderfynais mai tasg y disgyblion oedd dilyn rysâit (gweler Tystiolaeth 1a a Thystiolaeth 1b). Gan mai disgyblion cyrhaeddiad uwch oedd y rhain, gadewais i'r disgyblion i addasu'r rysâit er mwyn ychwanegu rhagor o adferfau a berfau gorchmynnol fel her. Roedd y gwersi Saesneg blaenorol wedi bod ar ysgrifennu cyfarwyddiadau, ac felly, trwy ddilyn rysâit, roedd y disgyblion yn cael tro i ddilyn cyfarwyddiadau manwl mewn sefyllfa go iawn. O ganlyniad, roedd cyd-destun dilys i'r hyn roedd y disgyblion wedi gwneud yn eu gwersi Saesneg blaenorol. Yn ychwanegol, penderfynais ddefnyddio rysâit i greu cynnyrch a oedd yn gysylltiedig â sioe Nadolig y disgyblion. Dewisais wneud hyn er mwyn ceisio ennyn diddordeb y disgyblion ac i ddarparu rhagor o gyd-destun cyfarwydd i'r disgyblion.

Penderfynais geisio rhoi cyd-destun dilys i'r hyn roeddwn i'n ei haddysgu er budd y disgyblion. Yn ôl Donaldson (2015), mae'n bwysig bod disgyblion yn gallu cymhwyso'r hyn maent yn dysgu yn yr ystafell dosbarth i sefyllfaoedd amrywiol tu hwnt i'r ysgol, er mwyn iddynt wir buddio o'r hyn maent yn dysgu. Felly, trwy gyflwyno tasg ymarferol fel coginio yn fy ngwers Saesneg, roeddwn i'n profi i'r disgyblion bod ysgrifennu a dilyn cyfarwyddiadau manwl yn sgil trosglwyddadwy byddan nhw'n ei ddefnyddio yn fywyd go iawn. Mae ymchwil gan Lombardi (2007) hefyd yn cydnabod bod yna nifer o fanteision i fyfyrwyr o dderbyn addysg sy'n caniatáu iddynt brofi profiadau dilys, megis y datblygiad o sgiliau datrys problem, meddwl ymhellach ac adfyrio critigol.

Teimlaf fod y wers wedi bod yn llwyddiannus, gan yn y wers nesaf gwnaeth pob un o'r disgyblion llwyddo i ysgrifennu cyfarwyddiadau manwl i ddisgrifio'r camau a gymerwyd i greu'r cynnyrch. Yn ychwanegol, wrth gwestiynu'r disgyblion ar ddechrau'r wers nesaf, roedd hi'n amlwg bod nhw'n gwerthfawrogi pam bod angen cynnwys manylder yn y cyfarwyddiadau (hynny yw sut mae cynnwys adferfau a chysylltiadau amserol yn helpu'r darllenwyr i ddilyn y cyfarwyddiadau yn gywir). Gellir dadlau efallai bod y disgyblion yn gwerthfawrogi hyn yn fwy ar ôl dilyn cyfarwyddiadau eu hun, ac felly mae'n bosib bod darparu cyd-destun dilys i'r hyn a addysgwyd yn helpu'r disgyblion i wneud gwell cynnydd a datblygiad, fel soniwyd Lombardi (2007).

Enghraifft Ddarluniadol 2

Wednesday, December 18, 2019 12:04 PM

Tystiolaeth 2a

Meini Prawf Llwyddiant (wedi eu cysylltu'n glir â phob Amcan Dysgu ac yn gysylltiedig â phroses a/neu gynnyrch dysgu)	Asesu Dysgu'r Disgyblion Tystiolaeth (Beth sydd gan y dysgwyr i'w ddweud/ystrifennu/gwneud/cynhyrchu i ddangos yr hyn a ddysgir)
Bydd disgyblion yn dechrau gan adeiladu ar eu gwybodaeth flaenorol o onglau er mwyn llunio onglau eu hun.	Rhannu'r meini prawf llwyddiant gyda'r disgyblion. Bydda i'n defnyddio strategaethau cwestiynu ar ddechrau'r wers i asesu dealltwriaeth flaenorol y disgyblion o fesur onglau.
Bydd disgyblion yna yn cael siawns i lunio onglau eu hun hyd at 180° gan ddefnyddio onglydd. Byddant yn cofio i: - Ddefnyddio'r raddfa gywir - Roi'r onglydd ar y linell yn syth - Roi twll yr onglydd ar y fertig/cornel.	Bydd disgyblion yn derbyn onglydd yr un ar gyfer y wers. Bydda i'n modelu sut i lunio gwahanol onglau ar y bwrdd gwyn. Yna, fydda i'n crwydro o amgylch y dosbarth wrth i'r disgyblion cwblhau'r dasg er mwyn rhoi adborth a chymorth fel bo angen.

Tystiolaeth 2c

- cyfrifo arwynebedd sgwariau a phetryalau - adnabod onglau atblyg ❖ - llunio a mesur yn gywir onglau llym ac aflwm mewn lloosrifau o 5 gradd ❖ - cyfrifo ongl sydd ar goll o fewn ongl sgwâr, ar linell syth neu o amgylch pwynt ❖ - defnyddio cyfeirnodau grid i bennu lleoliad

Tystiolaeth 2b

	gyda'r adran 'herio a disgwyliadau' gan fy mod i'n herio ac yn gosod disgwyliadau uchel ar gyfer pob disgybl.
Meysydd ar gyfer fy Natblygiad	Er mwyn gwella fy addysgeg, bydda i'n ceisio rhoi cyd-destunau mwy dyls i'r disgyblion er mwyn iddyn nhw allu adnabod lle bydden nhw'n defnyddio llunio onglau yn fywyd go iawn. Yn obeihiol, mi fydd hyn yn helpu'r disgyblion i wneud cynnydd, gan eu bod nhw'n gallu gwerthfawrogi pwysigrwydd y sgil. Mae hyn yn gysylltiedig â'r adran 'cyd-destunau bywyd go iawn, dyls'. Felly, yn fy ngwersi nesaf byddaf yn ceisio rhoi cyd-destun dyls i'r hyn byddaf yn addysgu.
Targedau Personol ar gyfer Cynnydd	

Tystiolaeth 2ch

Meini Prawf Llwyddiant (wedi eu cysylltu'n glir â phob Amcan Dysgu ac yn gysylltiedig â phroses a/neu gynnyrch dysgu)	Asesu Dysgu'r Disgyblion Tystiolaeth (Beth sydd gan y dysgwyr i'w ddweud/ystrifennu/gwneud/cynhyrchu i ddangos yr hyn a ddysgir)
Erbyn diwedd y wers, byddwch chi wedi dysgu sut i gymhwyso eich sgiliau llunio a mesur onglau, a sut i gyfrifo ongl goll, i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau onglau.	Bydda i'n crwydro o amgylch y dosbarth wrth i'r disgyblion cylchdroi o amgylch yr amrywiaeth o weithgareddau onglau er mwyn i mi asesu eu dealltwriaeth hwy o'r tasgau. Byddaf yn darparu adborth a chymorth fel bo angen.
Bydd angen i chi defnyddio'r camau	

Yn fy ngwers Mathemateg ar lunio onglau gyda dosbarth gallu cymysg o ddisgyblion Blwyddyn 6, ni themlaf fy mod i wedi llwyddo i ddarparu cyd-destun dyls i'r gwaith (gweler Tystiolaeth 2a). Adfyfyriais ar hyn yn fy adfyfyrio dyddiol ar ddiwedd y wers (gweler Tystiolaeth 2b). Er i mi dderbyn sylwadau cadarnhaol o fy mentor dosbarth yn dilyn y wers, ni themlaf fy mod i wedi darparu digon o gyd-destun dyls i'r disgyblion o ble byddan nhw'n defnyddio'r sgil yma tu hwnt i'r ysgol.

Weithiau, roeddwn i'n gweld hi'n anodd darparu cyd-destun dyls i'r hyn roeddwn i'n ei haddysgu, yn enwedig gyda gwaith mathemateg Blwyddyn 6. Teimlaf fod yn rhaid i mi llynu at ofnyon y cwricwlwm (gweler Tystiolaeth 2c), a ni lwyddais i gyflwyno cyd-destun dyls ar gyfer pob testun. Rydw i'n teimlo'n siomedig gydag hyn, yn enwedig wrth ystyried bod ymchwil yn dangos bod rhoi cyd-destun i waith mathemateg yn cael effaith cadarnhaol ar ddysgu'r disgyblion, trwy hybu dealltwriaeth a dyfalbarhad ar ran y disgyblion (Stoehr, Turner & Sugimoto, 2015). Er hyn, gwnaeth Donaldson (2015) ei hun cydnabod yr anawsterau sy'n gallu wynebu athrawon wrth iddynt geisio creu cysylltiadau creadigol gyda'r byd go iawn. Yn ei adroddiad (Donaldson, 2015, tud.10), mae'n datgan bod y cwricwlwm presennol "yn canolbwyntio'n ormodol ar y tymor byr", ac felly mae ormod o bwyslais yn cael ei roi ar addysgu cynnwys y cwricwlwm, yn hytrach nag ar y cyflwyniad a throsglwyddiad o wybodaeth o'r athro i'r disgyblion. O ganlyniad, penderfynodd Donaldson (2015) bod angen diwygio'r cwricwlwm. Er mwyn sicrhau bod disgyblion yn buddio o'u haddysg, penderfynodd cyflwyno 12 egwyddor addysgeg, ac mae un ohonynt wedi ffocysu'n benodol ar "greu cyd-destunau dyls ar gyfer dysgu" (Donaldson, 2015, tud. 67). Felly, er mwyn datblygu fy addysgeg yn unol â'r cwricwlwm newydd, mae'n hanfodol fy mod i'n ceisio darparu cyd-destunau dyls ar gyfer pob testun rwy'n addysgu. Ceisiais wneud hyn yn fy ngwers Mathemateg nesaf (gweler Tystiolaeth 2ch) ar ôl adfyfyrio ar y wers flaenorol. Teimlaf ychydig yn hapusach ar ôl cyflwyno'r cyd-destun yma, gan roedd y disgyblion yn gallu cymhwyso eu sgiliau i gyd-destun mwy naturiol. Er hyn, rwy'n cydnabod bod angen i mi barhau i wneud hyn gyda phob testun rwy'n addysgu er mwyn bwrw gofynion y cwricwlwm newydd ac i fuddio'r disgyblion rwy'n addysgu (Donaldson, 2015).

Enghraifft Ddarluniadol 3

Wednesday, December 18, 2019 12:04 PM

Tystiolaeth 3a

Addysgu a Dysgu Craidd	Dangos polisi gwrth fwlio'r ysgol i'r disgyblion. Esbonio bod hanner y dosbarth yn mynd i greu poster sy'n arddangos cynnwys y polisi yn weledol ar gyfer gweddill disgyblion yr ysgol, ac mae'r hanner arall yn mynd i greu fideo fel grŵp gan ddefnyddio sgrïpt/nodiadau a'i recordio ar iPad yr ysgol.	Gwrando ar y dasg a chodi llaw os oes ganddynt gwestiwn.	Copi o bolisi'r ysgol
------------------------	---	--	-----------------------

Tystiolaeth 3b

Dadansoddiad Adfyfyriol o Addysgu a Strategaethau ar gyfer Datblygiad – gan gynnwys cyfiawnhad/rhesymwaith dewisiadau pedagogaidd	
Tystiolaeth o'm Harfer Effeithiol	Er mwyn rhoi cyd-destun dilys i'r wybodaeth, fe benderfynais ddefnyddio polisi gwrth fwlio'r ysgol fel sail y poster/fideo. Yn obeithiol, mi fydd hyn yn helpu'r disgyblion i wneud cynnydd gan eu bod nhw'n gallu cydnabod pwysigrwydd y polisi, yn enwedig oherwydd efallai bod geiriau'r polisi yn cael effaith uniongyrchol arnyn nhw. Gellir cysylltu'r ymarfer yma gyda'r elfen 'cyd-destunau bywyd go iawn, dilys' yn y Safonau SAC. Yn ychwanegol, fe grwydrais o amgylch y dosbarth wrth i'r disgyblion cwblhau'r dasg gan roi adborth fel bo angen. Mae darparu adborth o ansawdd yn elfen bwysig o Asesu ar gyfer Dysgu. Gellir cysylltu'r ymarfer yma gyda'r elfen 'asesu' o'r Safonau SAC.

Yn un o fy ngwersi diwethaf gyda 32 o ddisgyblion gallu cymysg Blwyddyn 6, roeddwn i'n fwy ymwybodol bod angen i mi ddarparu cyd-destunau dilys ar gyfer yr hyn roeddwn i'n addysgu, yn unol â gofynion Donaldson (2015). Ffocws y wers oedd gwrth fwlio, ac roedd disgyblion naill ai yn creu poster gwrth fwlio neu sgrïpt a fideo gwrth fwlio fel grŵp (gweler Tystiolaeth 3a). Er mwyn ceisio creu cyd-destun dilys ar gyfer y wers, roedd yn rhaid i'r disgyblion seilio eu posteri a'u fideos ar bolisi gwrth fwlio'r ysgol. Yn ystod y wers, gwnaeth y disgyblion argymhell rhai gwelliannau roedden nhw am ychwanegu i'r polisi.

Penderfynais seilio'r tasgau ar bolisi gwrth fwlio'r ysgol er mwyn rhoi cyd-destun dilys i'r hyn roedd y disgyblion yn gwneud. Roeddwn i hefyd yn gobeithio byddan nhw'n gwerthfawrogi'r polisi yn fwy gan ei fod wedi'i greu er mwyn eu diogelu (gweler Tystiolaeth 3b ar gyfer fy myfyrdodau dyddiol). Mae ymchwil gan Steventon (2016) yn dadlau bod darparu cyd-destun dilys i'r hyn a addysgwyd nid ond yn helpu datblygiad y disgyblion, ond mae hefyd yn cynyddu eu cyfrifoldeb fel dysgwyr, sy'n codi eu hunanhyder yn uniongyrchol. Gellir dadlau bod y disgyblion yn ymddangos yn hyderus wrth gwblhau'r tasgau, gan wnaethant argymhell nifer o welliannau i'r polisi yn annibynnol, heb unrhyw fewnbwn o oedolion. O ganlyniad, mae'n bosib dadlau bod creu cyd-destunau dilys yn fuddiol i ddisgyblion (Steventon, 2016). Felly, er mwyn sicrhau bod y disgyblion yn cael y siawns orau i ddatblygu a gwneud cynnydd, byddaf yn ceisio creu cyd-destunau dilys yn pob un o fy ngwersi yn PAP 1 – Bloc 2. Trwy wneud hyn, byddaf hefyd yn bodloni gofynion Donaldson (2015, teitl) yn ei hadroddiad "Dyfodol Llwyddiannus".

Myfyrdod Beirniadol

Wednesday, December 18, 2019 12:03 PM

Pwrpas yr aseiniad yw adfyfrio ar gynnydd y darpar-athrawes yng nghyfnod Profiad Addysgu Proffesiynol 1 (PAP1) wrth iddi geisio taro gofynion 3 o egwyddorion addysgeg Donaldson (2015). Fel rhan o'i gwrwicwlwm newydd, cyflwyna Donaldson (2015, tud.64) 12 egwyddor addysgeg sy'n hyrwyddo "addysgu a dysgu da". Ystyriaethau ar gyfer athrawon yw'r rhain, wrth iddynt geisio cynllunio gwersi sy'n arwain at ddysgu effeithiol. Penderfynwyd ffocysu ar yr egwyddorion yma yn yr aseiniad: Asesu ar gyfer Dysgu (AagD), Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd a Chyd-destunau Dilys (Donaldson, 2015).

Yng nghyfnod PAP 1, roedd y darpar-athrawes wedi'i lleoli yn ysgol gynradd yn Sir Gaerfyrddin (Estyn, 2017). Mynycha 314 o ddisgyblion yr ysgol, gydag ond cyfartaledd o 5.9% yn gymwys ar gyfer Prydau Ysgol am Ddim (Fy Ysgol Leol, 2019). Mae'r ysgol wedi ei chategoreiddio'n werdd, sy'n golygu nid oes angen llawer o gymorth o'r Llywodraeth arnynt (Fy Ysgol Leol, 2019; Llywodraeth Cymru, 2019a). Bu'r darpar-athrawes yn addysgu yn nosbarth â 32 o ddisgyblion gallu cymysg Blwyddyn 6.

Wrth gynllunio'i gwersi, ceisiodd y darpar-athrawes i gyflwyno strategaethau AagD yn gyson. Penderfynwyd gwneud hyn ar ôl craffu ar ymchwil a oedd yn argymhell defnyddio'r strategaethau er mwyn sicrhau dysgu effeithiol (Black a Wiliam, 1998; Black, et al., 2003). Dadleuwyd bod AagD, sef modd o asesu ffurfiannol, yn fanteisiol i ddysgu'r disgyblion gan ei fod yn hyrwyddo perthynas rhyngweithiol rhwng yr athrawon, y disgyblion a'r hyn sy'n cael eu haddysgu (Black a Wiliam, 1998). Olygir hyn bod yr athrawon yn asesu dealltwriaeth y disgyblion yn gyson er mwyn addasu'r lefel o her ac i ddarparu adborth i'r disgyblion o sut i wneud cynnydd (Black a Wiliam, 1998; Donaldson, 2015). Yn ogystal, mae'r defnydd effeithiol o AagD yn un o flaenoriaethau Donaldson (2015), felly mae'n hollbwysig bod y darpar-athrawes yn eu cyflwyno'n gyson yn ystod ei gwersi. Noda gwaith Black a Wiliam (1998) bod yna 4 prif elfen o AagD sy'n rhaid eu defnyddio er mwyn cyflawni asesu effeithiol, sef y defnydd o gwestiynu, rhannu meini prawf llwyddiant (mpll) gyda'r disgyblion, darparu adborth i'r disgyblion a hunanasesu ac asesu cyfoedion. Bydd y paragraffau olynol yn ystyried pob un o'r elfennau yma yng nghyd-destun profiadau'r darpar-athrawes yn PAP 1 a'r llenyddiaeth.

Fel gwelwyd yn yr Enghreifftiau Darluniadol AagD, defnyddiodd y darpar-athrawes strategaethau cwestiynu. Penderfynwyd cyflwyno'r rhain gan fod ymchwil wedi canfod bod cwestiynu effeithiol yn fuddiol (Wareing, 2012; Black et al., 2003; Hodgen & Webb, 2008). Nid ond yw cwestiynu yn arddangos dealltwriaeth y disgyblion, ond mae'n hybu trafodaeth lle maent yn cydnabod eu llwyddiannau, sy'n dangos ffordd ymlaen i'r dysgu (Wareing, 2012; Hodgen & Webb, 2008). Er hyn, dadleua Hodgen & Webb (2008) bod rhai strategaethau cwestiynu yn fwy effeithiol nag eraill. Un strategaeth aneffeithiol yw'r strategaeth 'dwyllo i fyny', gan fod disgyblion yn gallu dewis i gyfrannu (Hodgen & Webb, 2008). O ganlyniad, ond y cyfranogwyr sydd gwir yn gwneud cynnydd o fewn y wers (Wiliam, 2018). Ar ôl defnyddio'r strategaeth yma (gweler Enghraifft Ddarluniadol 1 AagD), gwnaeth y darpar-athrawes sylweddoli ni wnaeth pob disgybl ymateb, ac o ganlyniad, defnyddiodd strategaethau eraill, megis ffyn loli a byrddau gwyn bach, i sicrhau cyfranogiad. Dengys y strategaethau yma i fod yn fwy effeithiol wrth i'r disgyblion canolbwyntio'n fwy rhag ofn iddynt orfod cyfrannu ac roedd y defnydd o'r byrddau gwyn bach yn dangos cynnydd y disgyblion yn glir (Williams, 2018; Wareing, 2012). O ganlyniad, caniateir hyn i'r darpar-athrawes addasu'r dasg yn gyson er mwyn cwrdd ag anghenion y disgyblion.

Yr ail elfen o AagD cyflwynodd y darpar-athrawes oedd rhannu'r mpll gyda'r disgyblion. Dangosa ymchwil bod gwneud hyn yn cynyddu cymhelliant y disgyblion gan fod cyfarwyddyd clir ganddynt (Wareing, 2012; Black, et al., 2003). Yn ôl canfyddiadau DeLuca, et al., (2018), mae disgyblion o bob oedran yn gwerthfawrogi'r mpll, gan ei fod o gymorth iddynt wrth iddyn nhw gwblhau'r dasg. Yn ychwanegol, mae ymwybyddiaeth y disgyblion o'r mpll yn caniatáu iddyn nhw fesur eu cynnydd yn erbyn safonau penodol (Wiliam, 2018). Gan seilio ei hymarfer ar yr ymchwil, ceisiodd y darpar-athrawes i rannu'r mpll gyda'r disgyblion ar ddechrau pob gwers, er iddi orfod ei gyflwyno yn hwyrach weithiau oherwydd camgymeriad (gweler Enghraifft Ddarluniadol 1 AagD). Gwnaeth y darpar-athrawes hefyd caniatáu i'r disgyblion pennu'r mpll (gweler Enghraifft Ddarluniadol 2 AagD). Dadleua Clarke (2008, tud.93), "success criteria must be generated by pupils to have maximum impact", gan fod hyn yn sicrhau bod y disgyblion yn deall gofynion y dasg. Cytuna Williams (2018), gan nodi bod disgyblion yn taro gofynion y mpll yn fwy llwyddiannus ar ôl ei greu ar y cyd. Wrth ystyried profiadau'r darpar-athrawes, mae'n bosib dadlau bod gwirionedd yn yr ymchwil, gan wnaeth hi dderbyn sylwadau cadarnhaol ar y dasg mpll yn dilyn y wers.

Elfen bwysig arall o AagD yn ôl Black a Wiliam (1998) yw'r ddarpariaeth o adborth gan ei fod yn rhoi arweiniad i ddisgyblion er mwyn helpu nhw gyrraedd eu llawn botensial. Mae Donaldson (2015) yn pwysleisio'r effaith cadarnhaol mae adborth yn cael ar gynnydd disgyblion, ac mae ymchwil hefyd yn dangos ei fod yn cynyddu ymreolaeth disgybl (Wiliam, 2018; Swaffield, 2008). Yn ychwanegol, dangosa ymchwil DeLuca, et al. (2018) bod disgyblion yn gweld adborth athrawon yn ddefnyddiol, gan ei fod yn helpu nhw i wella. Wrth ystyried y manteision, ceisiodd y darpar-athrawes rhoi adborth ar lafar ac ysgrifenedig yn ystod PAP1. Gweithiodd hwn yn effeithiol yn rhai gwersi (gweler Enghraifft Ddarluniadol 2 AagD). Fodd bynnag, mae Wiliam (2018) yn dadlau bod yn rhaid i athrawon rhoi adborth yn ofalus, gan fod yna nifer o ffyrdd mae disgyblion yn gallu ymateb. Un enghraifft profodd y darpar-athrawes o hyn yw wrth iddi graffu ar waith disgybl cyn rhoi adborth, gwnaeth e ddweud wrth un o'i gyfoedion "something will be wrong with it, something is always wrong". Efallai bod y disgybl wedi cael profiadau blaenorol o dderbyn adborth negyddol, sy'n atgyfnerthu'r pwysigrwydd o ddarparu adborth cadarnhaol sy'n rhoi camau penodol ymlaen er mwyn sicrhau cynnydd (Wareing, 2012; Wiliam, 2018; Swaffield, 2008).

Yr elfen olaf o AagD cynlluniodd y darpar-athrawes i ddefnyddio oedd hunanasesu ac asesu cyfoedion. Penderfynwyd gwneud hyn gan fod ymchwil yn dadlau bod defnyddio'r rhain yn caniatáu i ddisgyblion myfyrio ar eu cynnydd, er mwyn datblygu'r sgil trosglwyddadwy o feta wybyddiaeth, sef "one's knowledge concerning one's own cognitive processes" (Flavell, 1976, dyfynnwyd yn Wiliam, 2018, tud.174). Mae'r disgyblion yn defnyddio'u wybyddiaeth i gymryd cyfrifoldeb dros fesur eu cynnydd, sy'n sgil hanfodol ar gyfer dysgu gydol oes, sydd hefyd yn cyd-fynd â 4 diben Donaldson (2015; Earl & Katz, 2008; Sambell, McDowell & Montgomery, 2013). Yn ychwanegol, awgryma ymchwil DeLuca, et al. (2018) bod disgyblion yn gwerthfawrogi hunanasesu yn fwy na asesu cymheiriaid, gan eu bod nhw'n amau cywirdeb sylwadau cyfoedion. I'r gwrthwyneb, dadleua Wiliam (2018) bod disgyblion yn llawer mwy geirwir gyda'i gilydd, ac o ganlyniad, maent yn datblygu'n gynt. Fel datrysiaid, efallai dylai'r athrawon penderfynu sut i ddefnyddio asesu cyfoedion yn eu dosbarth er mwyn sicrhau ei heffeithiolrwydd (Popham, 2012; Department for Education, 2018). Er i'r darpar-athrawes cydnabod y manteision o ddefnyddio'r asesiadau, ni lwyddodd hi i gyflwyno digon o amser i gyflawni'r rhain. Yn ôl Sackstein (2015), rhaid cyflwyno amser penodol o fewn y wers i gwblhau'r asesiadau er mwyn i'r disgyblion eu gwerthfawrogi. Wrth ystyried hyn, mi fydd y darpar-athrawes yn ceisio cyflwyno rhagor o amser ar gyfer hyn yn ei gwersi nesaf.

Yr ail egwyddor addysgeg penderfynwyd ffocysu ar yn yr aseiniad yw'r cyflwyniad o'r Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd (Donaldson, 2015). Cwmpasir y cyfrifoldebau o lythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol ac awgrymwyd dylid eu cyflwyno i'r Meysydd Dysgu a Phrofiad (MDaP) arall "mewn ffordd naturiol" (Donaldson, 2015, tud.69). Pwrpas cyflwyno'r rhain yw i ddarparu cyfleoedd dilys i'r disgyblion i ddatblygu eu sgiliau ieithyddol, rhifedd a chymhwysedd digidol mewn amrywiaeth o gyd-destunau, er mwyn eu paratoi ar gyfer gofynion y gweithleoedd modern (Donaldson, 2015). Wrth ystyried hyn, ceisiodd y darpar-athrawes i gyflwyno'r cyfrifoldebau mor aml ag oedd yn bosib yn ei gwersi.

Dechreuodd y darpar-athrawes ei chyfnod yn PAP1 trwy gyflwyno rhifedd yn drawsgwricwlaidd (gweler Enghraifft Ddarluniadol 1 o Gyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd). Mae ymchwil yn dadlau bod yn rhaid i ddisgyblion mireinio eu sgiliau mathemateg mewn amrywiaeth o gyd-destunau er mwyn iddynt allu cymhwyso'r rhain ar draws bywyd (Donaldson, 2015; Lewis, et al., 2018). Yn ychwanegol, noda ymchwil Bennison (2015) bod cyflwyno rhifedd yn drawsgwricwlaidd yn cynyddu hyder y disgyblion gyda mathemateg. Caniateir hyn iddynt ddatblygu gwydnwch trwy arbrofi gyda rhifedd yng nghyd-destunau gwahanol, sy'n ei baratoi nhw ar gyfer dysgu gydol oes (Llywodraeth Cymru, 2019b). Gellir cysylltu'r datblygiad yma gydag un o ddibenion Donaldson (2015, tud.29), sef y datblygiad o "ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes" (Llywodraeth Cymru, 2019b). Felly, penderfynodd y darpar-athrawes i gyflwyno rhifedd er budd y disgyblion. Er hyn, wrth fyfyrto, sylweddolodd y darpar-athrawes ni wnaeth hi ei gyflwyno mor aml ag y gwnaeth hi gyflwyno llythrennedd. Canfu ymchwil gan Milton, et al. (2007) canlyniadau tebyg; darganfuwyd bod 90% o athrawon yn ystyried eu hun i fod yn athrawon rhifedd. Un datrysiaid posib a chynigwyd i gynyddu hyder yr athrawon yw cynyddu'r hyfforddiant maent yn derbyn ar ddarpariaeth drawsgwricwlaidd (Milton, et al., 2007; Forgasz, Leder & Hall, 2017). Efallai byddai hyn yn buddio'r darpar-athrawes, gan roi rhagor o syniadau iddi o sut i gyflwyno rhifedd yn drawsgwricwlaidd. Er hyn, rhaid ystyried bod llawer o'r ymchwil a soniwyd am wedi'u cwblhau yn Awstralia, gan fod y wlad wedi cynllunio ar gyfer ddarpariaeth drawsgwricwlaidd ers sawl mlynedd, ac efallai nid yw'n bosib cymhwyso'r canfyddiadau ar gyfer y Deyrnas Unedig (Lewis et al, 2018; Milton, et al., 2007; Forgasz, Leder & Hall, 2017). Serch hyn, gan fod Donaldson (2015) yn pwysleisio'r manteision o gyflwyno'r cyfrifoldebau, mae'n hanfodol bod y darpar-athrawes yn parhau i ddarparu llw o gyfleoedd i'r disgyblion i gymhwyso eu sgiliau.

Fel soniwyd yn flaenorol, mae Donaldson (2015) yn pwysleisio dylid hefyd cyflwyno llythrennedd yn drawsgwricwlaidd, gan fod gofyn i'r disgyblion i ymarfer eu sgiliau ieithyddol yng nghyd-

destunau gwahanol yn helpu iddynt werthfawrogi pwysigrwydd defnyddio'r sgiliau. Cefnogir y safbwynt yma gan ymchwil sy'n dadlau oherwydd gofynion y byd modern a globaleiddio, mae'n holl bwysig bod disgyblion yn ymwybodol o sut i gymhwyso eu sgiliau ieithyddol (Harreveld, Baker & Isdale, 2008; Quirke-Bolt & Jeffers, 2018). Pwrpas hwn yw symud o'r cysyniad o "learning to write" i "writing to learn" (Hillyard, 2012, tud.6), gan fod ymarfer defnyddio'r sgiliau ieithyddol yn gwella dealltwriaeth y disgyblion o'r testun ac yn helpu iddynt ddatblygu'r sgil o feddwl yn feiriadol. Cyflawnwyd ymchwil ar gyflwyno llythrennedd yn drawsgwricwlaidd am flwyddyn yn yr Alban (Scott, 2013). Canfu'r ymchwil bod cyflwyno'r sgil yn helpu'r disgyblion i ganfod a chrynhof prif bwyntiau testun ac ystyried dibynadwyedd ffynonellau. Er bod yr ymchwil wedi'i gyflawni yn yr Alban a'i gyfyngu i 1 flwyddyn, mae egwyddorion sylfaenol yr ymchwil yn debyg i awgrymiadau Donaldson (2015) o sut i gyflwyno llythrennedd yn drawsgwricwlaidd. Oblegid hyn, mae'n bosib byddai'r manteision i'r disgyblion o dderbyn addysg drawsgwricwlaidd yn debyg i'r manteision adnabwyd yn yr ymchwil (Scott, 2013). Efallai byddai'n fuddiol i'r ddwy wlad i rannu arfer da, er budd y disgyblion. Wrth ystyried yr holl fanteision i'r disgyblion, penderfynodd y darpar-athrawes y geisio cyflwyno llythrennedd yn drawsgwricwlaidd yn ei gwersi (gweler Enghreifftiau Darluniadol 2 a 3 o Gyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd). Er hyn, teimlai'r darpar-athrawes ei bod hi'n cyflwyno'r elfen llythrennedd yn fwy na'r elfennau rhifedd a chymhwysedd digidol, ac felly ei tharged ar gyfer gwersi yn y dyfodol yw cyflwyno'r 3 elfen yn gyfartal (Donaldson, 2015).

Yn ôl Donaldson (2015), mae datblygu sgiliau digidol y disgyblion yn unol â'r newidiadau chwyldroadol sy'n digwydd yn y byd technolegol yn gyfrifoldeb pwysig i athrawon. Rhaid cyflwyno cymhwysedd digidol i ddatblygu llythrennedd digidol y disgyblion er mwyn sicrhau eu bod nhw'n gallu cyflawni gofynion technolegol gweithleoedd yn y dyfodol (Burnett, 2014; Donaldson, 2015). Yn ychwanegol, yn yr ysgol mae cyfleoedd i ddarparu profiadau cyfoethog i ddisgyblion gyda thechnolegau anghyfarwydd, sy'n cynyddu eu hyder wrth iddynt gael amser i arbrofi (Björger & Erstad, 2015). Dangosa ymchwil gan Kimbell-Lopez, Cummins & Manning (2016) bod disgyblion gwir yn mwynhau cael cyfleoedd i arbrofi, ac roeddent yn awyddus i addysgu ei gilydd wrth iddynt feistrolu gwahanol sgiliau, sy'n datblygu eu cymhwysedd digidol a'u sgiliau llythrennedd. Roedd y darpar-athrawes yn falch i gyflwyno cymhwysedd digidol i'w gwrs, ond o fewn peth amser fe ddaeth hi'n amlwg nad oedd hi wedi herio'r disgyblion yn ddigonol gyda'r elfen cymhwysedd digidol (gweler Enghraifft Ddarluniadol 3 o Gyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd). Teimlai'r darpar-athrawes mewn penbleth gan nid oedd hi eisiau i'r disgyblion colli allan ar brofi gwahanol dechnolegau, ond nid oedd ganddi'r hyder i'w chynorthwyo, ac felly ni wnaethant ddefnyddio'r rhain. Dangosa ymchwil canlyniadau tebyg; mae diffyg hyder athrawon yn cael effaith negyddol ar gynnydd disgyblion gyda chymhwysedd digidol (Burnett, 2014; Kimbell-Lopez, Cummins & Manning, 2016; Morris, 2012). Ar y naill law, mae Morris (2012) yn dadlau dylai'r ysgolion mesur sgiliau digidol y staff yn rheolaidd i sicrhau cynnydd, tra ar y llaw arall, mae rhai yn dadlau mae cyfrifoldeb yr athrawon eu hun yw sicrhau eu bod nhw'n fedrus â thechnoleg (Duncan, 2011). Cydnabyddai'r darpar-athrawes bod angen iddi wella'i llythrennedd digidol, cyn iddi deimlo'n hyderus i addysgu'r disgyblion â thechnoleg. Gwneir hyn er mwyn sicrhau ei bod hi'n gallu darparu cyfleoedd i ddisgyblion i wneud cynnydd, fel argymhellodd Donaldson (2015).

Yr egwyddor addysgeg olaf penderfynwyd ffocysu ar yw'r ddarpariaeth o gyd-destunau dilys. Dadleua Donaldson (2015) bod cyfrifoldeb ar athrawon i sicrhau bod disgyblion yn adnabod y berthynas rhwng yr hyn sy'n cael eu dysgu yn yr ysgol a'r byd go iawn, er mwyn iddyn nhw wir gwerthfawrogi pwysigrwydd yr hyn sy'n cael eu dysgu. Cytuna Wiggins a McTighe (2011, tud.4) gan nodi "teachers are coaches of understanding, not mere purveyors of content or activity". Caniateir y cyflwyniad o gyd-destunau dilys i ddisgyblion gymhwyso'u gwybodaeth a dealltwriaeth i sefyllfaedd gwirioneddol (Donaldson, 2015; Pearce, 2016). Dangosa ymchwil bod disgyblion yn dangos gwell dealltwriaeth ar ôl pennu cysylltiadau rhwng yr hyn a ddysgwyd a phrofiadau blaenorol, felly mae'r ddarpariaeth o gyd-destunau dilys yn helpu'r disgyblion i bennu'r rhain (Lombardi, 2007; Pearce, 2016). Gwnaeth ymchwil gan Stoehr, Turner & Sugimoto (2015) canfod bod cysylltu profiadau disgyblion â'u dealltwriaeth o fathemateg yn benodol yn gallu cynyddu eu cyrhaeddiad. Gellir defnyddio profiadau'r disgyblion fel sail i wersi mathemateg, gan helpu iddyn nhw wneud cysylltiadau rhwng eu profiadau a'r wybodaeth newydd, sy'n ehangu a dyfnhau eu dealltwriaeth o'r testun (Stoehr, Turner & Sugimoto, 2015; Lombardi, 2007). Er i ddisgyblion teimlo mwy o foddhad wrth ddatrys problemau gwirioneddol o'i gymharu â phroblemau ffug, nid yw'n bosib cyflwyno pob testun o fewn sefyllfa go iawn, felly rhaid defnyddio technoleg mewn ffordd greadigol er mwyn hyrwyddo gyd-destunau dilys ar gyfer y testunau yma (Lombardi, 2007).

Yn ychwanegol, mae'r ddarpariaeth o gyd-destunau dilys yn hybu cyfranogiad o bob disgybl, gan godi eu cymhelliad a chyflawniad wrth iddyn nhw ddatblygu amrywiaeth o sgiliau, yn hytrach nag ond dyfnhau eu gwybodaeth bynciol (Stoehr, Turner & Sugimoto, 2015; Steventon, 2016). Wrth ddelio â phroblemau sydd â chyd-destun dilys, mae disgyblion yn datblygu'r sgiliau o feddwl yn feiriadol, gwydnwch, dyfalbarhad a hyblygrwydd wrth iddynt sylweddoli nad yw problemau yn aml yn cwmpo o fewn un pwnc penodol, ond yn hytrach mae angen iddynt ddefnyddio eu sgiliau yn drawsgwricwlaidd (Lombardi, 2007; Pearce, 2016). Rhoddir hyn mwy o

gyfrifoldeb i'r disgyblion o hyrwyddo dysgu eu hun, sy'n codi eu hyder wrth iddyn nhw ddysgu i fod yn fwy hunanddibynnol (Wiggins & McTighe, 2011; Steventon, 2016). O ganlyniad, mae'n bosib dadlau bod darparu cyd-destunau dilys yng ngwersi yn paratoi disgyblion ar gyfer y byd gwaith modern (Lombardi, 2007). Yng Nghymru, mae Estyn (dim dyddiad) yn canmol yr ysgolion sy'n rhoi'r egwyddor ar waith trwy ddarparu cyd-destunau dilys mor aml ag y gallant. Awgryma hyn bod yr ymarfer yn cael ei hystyried yn arfer dda yn y wlad (Estyn, dim dyddiad).

Fel gwelwyd yn Enghreifftiau Darluniadol 1 a 3 o Gyd-destunau Dilys, ceisiodd y darpar-athrawes cyflwyno cyd-destunau i'r hyn a addysgwyd yn ystod PAP1. Ymddangosa'r ymarfer i fod yn llwyddiannus wrth ystyried ymateb y disgyblion i'r tasgau. O ganlyniad, gellir dadlau bod y disgyblion wedi gwneud gwell cynnydd o fewn y wers oherwydd y cyflwyniad o'r cyd-destunau dilys, fel awgryma'r ymchwili (Lombardi, 2007; Pearce, 2016).

Er hyn, cydnabyddai'r darpar-athrawes ei methiannau; ni lwyddodd hi i gyflwyno cyd-destunau dilys ar gyfer pob gwers a themlai fod hi'n enwedig o anodd i wneud hyn yng ngwersi mathemateg (gweler Enghraifft Ddarluniadol 2 o Gyd-destunau Dilys). Teimlai bod hyn yn rhannol oherwydd ffocws y cwricwlwm presennol ar addysgu'r cynnwys, yn hytrach nag ar y profiadau addysgol a ddarparwyd i'r disgyblion (Donaldson, 2015). Dadl debyg sydd gan Lujan a DiCarlo (2006). Maent yn dadlau oherwydd cynnwys helaeth y cwricwlwm, ond dealltwriaeth arwynebol sydd gan ddisgyblion o destunau oherwydd diffyg amser. Oblegid hyn, nid yw'r disgyblion yn ffynnu a gwneud cynnydd aruthrol, gan nad oes wir ganddynt ddealltwriaeth o'r cysyniadau. Fel datrysiaid i hyn, awgryma Lujan a DiCarlo (2006, tud.19):

We must help students become active, independent learners and problem solvers because it is clear that active processing of information and not just passive reception of that information leads to learning (Lujan & DiCarlo, 2006, tud.19).

Fel soniwyd yn flaenorol, mae darparu cyd-destunau dilys yng ngwersi yn sicrhau bod disgyblion yn cael cyfle i gyfrannu a dyfnhau eu dealltwriaeth o wahanol destunau trwy arbrofi a datrys problemau (Steventon, 2016; Lombardi, 2007; Pearce, 2016). Felly, wrth ystyried datrysiaid Lujan a DiCarlo (2006), a'r manteision a adnabuwyd yn flaenorol, mae'n hollbwysig bod y darpar-athrawes yn cyflwyno cyd-destunau dilys i'w gwersi er mwyn i'r disgyblion datblygu'r sgiliau sydd angen arnynt ar gyfer dyfodol llwyddiannus (Steventon, 2016; Lombardi, 2007; Pearce, 2016; Wiggins & McTighe, 2011). Gan fod Donaldson (2015) ei hun yn cydnabod pwysigrwydd cyflwyno cyd-destunau dilys, mae'n bosib bydd rhagor o amser yn cael ei benodi i athrawon i gyflwyno'r rhain i'w gwersi unwaith i'r cwricwlwm newydd gael ei sefydlu yn 2022. O ganlyniad, bydd y darpar-athrawes yn gallu sicrhau bod hi'n darparu cyd-destunau dilys ar gyfer pob uned o waith er mwyn i'r disgyblion gwneud y cynnydd orau posib (Donaldson, 2015; Lujan a DiCarlo, 2006; Steventon, 2016).

I gloi, er mwyn hyrwyddo "addysgu a dysgu da" (Donaldson, 2015, tud. 64), rhaid i athrawon ystyried gofynion y 12 egwyddor addysgeg a chynllunio i gynnwys y rhain yn eu gwersi. Fel gwelwyd, adfyfyria'r darpar-athrawes ar y cynnydd a wnaed hi yn ystod PAP1 wrth geisio cyflwyno 3 o egwyddorion addysgeg Donaldson (2015) yn ei gwersi.

Yr egwyddor gyntaf adfyfyriwyd ar yw'r defnydd o asesu ffurfiannol a'r 4 elfen o AagD. Awgryma Black a Wiliam (1998) dylid cyflwyno'r elfennau o adborth, rhannu mplot, hunanasesu a chwestiynu yn gyson er mwyn addasu lefel yr her fel ei bod yn briodol i'r disgyblion a addysgwyd. Ceisiodd y darpar-athrawes i wneud hyn yn gyson, ond cydnabyddai ni wnaeth hi ddefnyddio hunanasesu yn ddigonol (Black a Wiliam, 1998).

Yr ail egwyddor ceisiodd y darpar-athrawes cyflwyno oedd y Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd, sef llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol. Yn ôl Donaldson (2015), mae'n hollbwysig bod yr elfennau yma yn cael eu defnyddio ar draws y cwricwlwm fel bod disgyblion yn dysgu sut i ddatrys problemau trawsgwricwlaidd. Llwyddodd y darpar-athrawes i gyflwyno'r rhain ond teimlai bod angen iddi gynyddu eu hyder gyda chymhwysedd digidol cyn gallu herio'r disgyblion (Burnett, 2014).

Yr egwyddor olaf gwnaeth y darpar-athrawes adfyfyrio ar yw'r ddarpariaeth o Gyd-destunau Dilys. Dangosa ymchwil helaeth bod creu'r rhain yn fuddiol i ddisgyblion gan helpu iddynt wneud gwell cynnydd (Lombardi, 2007; Pearce, 2016). Er iddi geisio darparu cyd-destunau dilys, cydnabyddai'r darpar-athrawes bod angen iddi gyflwyno'r rhain yn fwy aml er mwyn i'r disgyblion gwneud y cynnydd orau (Lujan & DiCarlo, 2006). Felly, ar ôl i'r cwricwlwm gael ei sefydlu yn 2022, byddai'n ddefnyddiol i gyflawni ymchwil pellach i fesur effaith yr egwyddorion addysgeg ar yr addysgu a dysgu (Donaldson, 2015).

Rhestr Gyfeirio

Wednesday, December 18, 2019 12:03 PM

- Andersson, C., Palm, T. (2017) 'Characteristics of improved formative assessment practice', *Education Inquiry*, 8(2), tud. 104-122. DOI: <https://doi.org/10.1080/20004508.2016.1275185> (Darllenwyd: 27ain o Ragfyr 2019).
- Barnes, J. (2018) *Applying Cross-Curricular Approaches Creatively: Learning to Teach in the Primary School Series*. Oxon: Routledge.
- Bennison, A. (2015) 'Developing an analytic lens for investigating identity as an embedder-of-numeracy', *Mathematics Education Research Journal*, 27(1), tud. 1-19. DOI: <http://dx.doi.org/10.1007/s13394-014-0129-4> (Darllenwyd: 2il o Ionawr 2020).
- Black, P., Harrison, C., Lee, C., Marshall, B., Wiliam, D. (2003) *Assessment for Learning: Putting it into practice*. Berkshire: Open University Press.
- Black, P., Wiliam, D. (1998) *Inside the Black Box: Raising Standards Through Classroom Assessment*. Ar gael yn: <https://www.rdc.udel.edu/wp-content/uploads/2015/04/InsideBlackBox.pdf> (Darllenwyd: 18fed o Ragfyr 2019).
- Björger, A.M., Erstad, O. (2015) 'The connected child: tracing digital literacy from school to leisure', *Pedagogies: An International Journal*, 10(2), tud. 113-127. DOI: 10.1080/1554480X.2014.977290 (Darllenwyd: 3ydd o Ionawr 2020).
- Burnett, C. (2014) 'Investigating pupils' interactions around digital texts: a spatial perspective on the "classroom-ness" of digital literacy practices in schools', *Educational Review*, 66(2), tud. 192-209. DOI: <https://doi.org/10.1080/00131911.2013.768959> (Darllenwyd: 3ydd o Ionawr 2020).
- Clarke, S. (2008) *Active Learning Through Formative Assessment*. Llundain: Hodder Education.
- Cureton, D., Clouder, L. (gol.) *Student Attainment in Higher Education: Issues, controversies and debates*. Oxon: Routledge.
- DeLuca, C., Chapman-Chin, A.E.A., LaPointe-McEwan, D., Klinger, D.A. (2018) 'Student perspectives on assessment for learning', *The Curriculum Journal*, 29(1), tud. 77-94. DOI: 10.1080/09585176.2017.1401550. (Darllenwyd: 18fed o Ragfyr 2019).
- Department for Education. (2018) *Assessment without levels: qualitative research: Research report*. Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/764174/NFER_AWL_report.pdf (Darllenwyd: 2il o Ionawr 2020).
- Donaldson, G. (2015) *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru*. Ar gael yn: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/dyfodol-llwyddiannus.pdf> (Darllenwyd: 28ain o Ragfyr 2019).
- Duncan, A. (2011) 'Harness the Power of Technology', *Learning & Leading with Technology*, 38(8), tud. 10-13. Ar gael yn: <https://files.eric.ed.gov/fulltext/EJ935414.pdf> (Darllenwyd: 4ydd o Ionawr 2020).
- Earl, L., Katz, S. (2008) 'Using assessment for self-monitoring and self-regulation' yn Swaffield, S. (gol.) *Unlocking Assessment: Understanding for reflection and application*. Oxon: Routledge.
- Estyn. (2017) Adroddiad ar Ysgol Gynradd Llangynnwr. Ar gael yn: <https://www.estyn.llyw.cymru/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/Ysgol%20Gynradd%20Llangynnwr%20cy.pdf> (Darllenwyd: 29ain o Ragfyr 2019).
- Estyn. (dim dyddiad) *Putting pupil voices at the centre of planning to develop independent learning*. Ar gael yn: <https://www.estyn.gov.wales/effective-practice/putting-pupil-voices-centre-planning-develop-independent-learning> (Darllenwyd: 4ydd o Ionawr 2020).
- Fernández-Cruz, F., Fernández-Díaz, M.J. (2016) 'Generation Z's Teachers and their Digital Skills', *Media Education Journal*, 24(46), tud. 97-105. DOI: <http://dx.doi.org/10.3916/C46-2016-10> (Darllenwyd: 28ain o Ragfyr 2019).
- Forgasz, H.J., Leder, G., Hall, J. (2017) 'Numeracy Across the Curriculum in Australian Schools: Teacher Education Students' and Practicing Teachers' Views and Understandings of Numeracy', *Numeracy*, 10(2), tud. 1-20. DOI: <http://doi.org/10.5038/1936-4660.10.2.2> (Darllenwyd: 2il o Ionawr 2020).
- Fy Ysgol Leol. (2019) *Llangunnor C.P. School*. Ar gael yn: <https://mylocalschool.gov.wales/School/6692173?lang=cy> (Darllenwyd: 29ain o Ragfyr 2019).

2019).

Harreveld, B., Baker, K., Isdale, L. (2008) 'Teachers' work in reading literacy across the curriculum in the senior phase of learning', *The Curriculum Journal*, 19(2), tud. 105-118. DOI: 10.1080/09585170802079538 (Darllenwyd: 3ydd o Ionawr 2020).

Hillyard, C. (2012) 'Comparative Study of the Numeracy Education and Writing Across the Curriculum Movements: Ideas for Future Growth', *Numeracy*, 5(2), tud. 1-19. DOI: <http://dx.doi.org/10.5038/1936-4660.5.2.2> (Darllenwyd: 3ydd o Ionawr 2020).

Hodgen, J., Webb, M. (2008) 'Questioning and dialogue' yn Swaffield, S. (gol.) *Unlocking Assessment: Understanding for reflection and application*. Oxon: Routledge.

Kerry, T. (2011) 'Introducing cross-curricular teaching: why an integrated curriculum?' yn Kerry, T. (gol.) *Cross-Curricular Teaching in the Primary School: Planning and Facilitating Imaginative Lessons*. Oxon: Routledge.

Kimbell-Lopez, K., Cummins, C., Manning, E. (2016) 'Developing Digital Literacy in the Middle School Classroom', *Computers in the Schools*, 33(4), tud. 211-226. DOI: 10.1080/07380569.2016.1249731 (Darllenwyd: 3ydd o Ionawr 2020).

Lee, C. (2013) 'Practical Assessment for Learning' yn Lee, C., Johnston-Wilder, S., Ward-Penny, R. (gol.) *A Practical Guide to Teaching Mathematics in the Secondary School*. Oxon: Routledge.

Lewis, R., Goos, M., Geiger, V., Dole, S., Forgasz, H., Bennison, A. (2018) 'Numeracy across the curriculum: Research-based strategies for enhancing teaching and learning', *Australian Primary Mathematics Classroom*, 23(4), tud. 40. Ar gael yn: <https://web-b-ebsscohost-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/ehost/pdfviewer/pdfviewer?vid=5&sid=023af27b-b731-4d09-8ec7-1139a62509d4%40pdc-v-sessmgr06> (Darllenwyd: 2il o Ionawr 2020).

Llywodraeth Cymru. (2019a) *System Genedlaethol ar gyfer Categoriaddio Ysgolion: Canllaw i rieni a gofalwyr*. Ar gael yn: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-01/system-genedlaethol-ar-gyfer-categoriaddio-ysgolion-canllawiau-i-rieni-a-gofalwyr.pdf> (Darllenwyd: 29ain o Ragfyr 2019).

Llywodraeth Cymru. (2019b) *Maes Dysgu a Phrofiad Mathemateg a Rhifedd*. Ar gael yn: <https://hwb.gov.wales/cwricwlm-drafft-i-gymru-2022/mathemateg-a-rhifedd> (Darllenwyd: 2il o Ionawr 2020).

Lombardi, M.M. (2007) *Authentic Learning for the 21st Century: An Overview*. Ar gael yn: <https://library.educase.edu/-/media/files/library/2007/1/eli3009-pdf.pdf> (Darllenwyd: 29ain o Ragfyr 2019).

Lujan, H.L., DiCarlo, S.E. (2006) 'Too much teaching, not enough learning: what is the solution?', *Advances in Physiology Education*, 30, tud. 17-22. DOI: 10.1152/advan.00061.2005. (Darllenwyd: 4ydd o Ionawr 2020).

Milton, M., Rohl, M., House, H. (2007) 'Secondary Beginning Teacher's Preparedness to Teach Literacy and Numeracy: A Survey', *Australian Journal of Teacher Education*, 32(2), tud. 37-56. DOI: <http://dx.doi.org/10.14221/ajte.2007v32n2.4> (Darllenwyd: 2il o Ionawr 2020).

Morris, D. (2012) 'ICT and educational policy in the UK: are we on the way towards e-maturity or on the road to digital disaster?', *Research in Teacher Education*, 2(2), tud. 3-8. Ar gael yn: <https://repository.uel.ac.uk/download/b5294318dc91903b4f1c30fc2b4cf7032814701795b1efc775a7a9602e7844c2/307207/Article%2520David%2520Morris%2520p3-8.pdf> (Darllenwyd: 3ydd o Ionawr 2020).

Muñoz, O.R., Penalba, F.A., Sánchez, J.F., Santos, O.C. (2017) 'Reducing techno-anxiety in high school teachers by improving their ICT problem-solving skills', *Behaviour & Information Technology*, 36(3), tud. 255-268. DOI: <https://doi.org/10.1080/0144929X.2016.1221462> (Darllenwyd: 28ain o Ragfyr 2019).

Panadero, E., Brown, G.T.L. (2017) 'Teachers' reasons for using peer assessment: positive experience predicts use', *European Journal of Psychology of Education*, 32(1), tud. 133-156. DOI: 10.1007/s10212-015-0282-5. (Darllenwyd: 18fed o Ragfyr 2019).

Pearce, S. (2016) 'Authentic learning: what, why and how?', *e-Teaching: Management Strategies for the Classroom*, 10. Ar gael yn: http://www.acer.org.au/acer/ACEL_docs/Publications/e-Teaching/2016/e-Teaching_2016_10.pdf (Darllenwyd: 4ydd o Ionawr 2020).

Popham, W.J. (2008) *Transformative Assessment*. Virginia: Association for Supervision and Curriculum Development.

Quirke-Bolt, N., Jeffers, G. (2018) 'Joining the Dots: Connecting Change, Post-Primary Development Education, Initial Teacher Education and an Inter-Disciplinary Cross-Curricular Context', *Policy & Practice: A Development Education Review*, 27, tud. 163-181. Ar gael yn: <https://web-b-ebsscohost-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/ehost/pdfviewer/pdfviewer?vid=8&sid=23d7148f-aad5-46d5-bbcc-d0902bf561ef%40pdc-v-sessmgr01> (Darllenwyd: 3ydd o Ionawr 2020).

- Read, A., Hurford, D. (2010) 'I know how to read longer novels' - developing pupils' success criteria in the classroom', *Education 3-13*, 38(1), tud. 87-100. DOI: 10.1080/03004270903099843. (Darllenwyd: 19eg o Ragfyr 2019).
- Sackstein S. (2015) *Teaching Students to Self-Assess: How do I help students reflect and grow as learners?* Virginia: Association for Supervision and Curriculum Development.
- Sambell, K., McDowell, L., Montgomery, C. (2013) *Assessment for Learning in Higher Education*. Oxon: Routledge.
- Scott, E. (2013) 'LAL with LOL at MHS: Literacy Across Learning in the Scottish Curriculum for Excellence', *The School Librarian*, 61(1), tud. 14-16. Ar gael yn: <https://search-proquest-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/docview/1501835909/fulltextPDF/95813C295A9D46C4PQ/1?accountid=130472> (Darllenwyd: 3ydd o Ionawr 2020).
- Steventon, G. (2016) 'Authentic learning: a route to student attainment?' yn Steventon, G., Cureton, D., Clouder, L. (gol.) *Student Attainment in Higher Education: Issues, controversies and debates*. Oxon: Routledge.
- Stoehr, K.J., Turner, E., Sugimoto, A.T. (2015) 'One teacher's understanding and practices for real-world connections in mathematics', *Teacher Education: School of Education & Counseling Psychology*, tud. 1150-1153. Ar gael yn: <https://core.ac.uk/download/pdf/72853144.pdf> (Darllenwyd: 29ain o Ragfyr 2019).
- Swaffield, S. (2008) 'Feedback: the central process in assessment for learning' yn Swaffield, S. (gol.) *Unlocking Assessment: Understanding for reflection and application*. Oxon: Routledge.
- Wareing, R. (2012) 'Assessment for Learning (Afl)', *Teaching Business & Economics*, 16(2), tud. 8-10. Ar gael yn: <https://web-b-ebSCOhost-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/ehost/pdfviewer/pdfviewer?vid=5&sid=8e8c72e4-ef3a-4fad-bd4c-6d77f24e33e5%40pdc-v-sessmgr03> (Darllenwyd: 18fed o Ragfyr 2019).
- Wiggins, G.P., McTighe, J. (2011) *The Understanding by Design Guide to Creating High-Quality Units*. Virginia: Association for Supervision and Curriculum Development.
- Wiliam, D. (2018) *Embedded Formative Assessment*. Bloomington: Solution Tree Press.